Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw i'r strwythur graddio newydd yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2022

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44954 ISBN digidol 978-1-80364-099-0

## Cyflwyniad

Mae strwythur graddio'r Isafswm Cyflog Amaethyddol wedi'i newid i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru ac yn addas i'r diben.

Nodir y strwythur graddio newydd yn Rhan 2, Erthyglau 5 i 9 o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol 2022 (Gorchymyn 2022) fel a ganlyn:

| Erthygl | Teitl Swydd a Gradd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 5 | Gweithiwr Datblygu Amaethyddol (Gradd A) | Gweithiwr amaethyddol :<br>(a) sy'n meddu ar lai na 3 blynedd o brofiad ymarferol sy'n berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth; a<br>(b) nad yw'n gallu darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr iddo dderbyn prif gymhwyster, neu gymwysterau, sy'n ofynnol ar gyfer Prentisiaeth Lefel 2*, yn unol â'r Fframwaith Prentisiaeth** neu gyfatebol* y tu allan i Gymru. |
| 6 | Gweithiwr Amaethyddol (Gradd B) | Gweithiwr amaethyddol:<br>(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr ei fod wedi derbyn y prif gymhwyster neu gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer Prentisiaeth Lefel 2*, yn unol â'r Fframwaith Prentisiaeth** neu wedi bodloni gofynion Prentisiaeth Lefel 2 neu brentisiaeth gyfatebol* y tu allan i Gymru; neu<br>(b) sy'n meddu ar o leiaf 3 blynedd o brofiad ymarferol mewn amaethyddiaeth fel Gweithiwr Datblygu Amaethyddol. |
| 7 | Gweithiwr Amaethyddol Uwch (Gradd C) | Gweithiwr amaethyddol:<br>(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr ei fod wedi derbyn y prif gymhwyster neu gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer Prentisiaeth Lefel 3*, yn unol â'r Fframwaith Prentisiaeth** neu wedi bodloni gofynion Prentisiaeth Lefel 3 neu brentisiaeth gyfatebol* y tu allan i Gymru;<br>(b) sy'n meddu ar o leiaf 2 flynedd o brofiad ymarferol mewn amaethyddiaeth fel Gweithiwr Amaethyddol Gradd B neu<br>(c) sy'n cael ei gyflogi fel Arweinydd Tîm[1]. |

1 At ddibenion yr erthygl hon, mae "Arweinydd Tîm" yn gyfrifol am arwain tîm o weithwyr amaethyddol ac am fonitro cydymffurfiaeth y tîm â chyfarwyddiadau a roddir gan, neu ar ran, ei gyflogwr, ond nid yw'n gyfrifol am faterion disgyblu.

| Erthygl | Teitl Swydd a Gradd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 8 | Uwch-weithiwr Amaethyddol<br>(Gradd D) | Gweithiwr amaethyddol:<br>(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr ei fod wedi derbyn y prif gymhwyster neu gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer Prentisiaeth Lefel 4* yn unol â'r Fframwaith Prentisiaeth** neu wedi bodloni gofynion prentisiaeth lefel 4 neu brentisiaeth gyfatebol* y tu allan i Gymru; neu<br>(b) sydd â chyfrifoldebau yn cynnwys rhoi penderfyniadau rheolwyr ar waith yn annibynnol neu oruchwylio staff. |
| 9 | Rheolwr Amaethyddol<br>(Gradd E) | Gweithiwr amaethyddol y mae'n ofynnol iddo fod â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd, gan gynnwys hurio a rheoli staff lle bo hynny'n berthnasol:<br>(a) ar gyfer daliad cyfan y cyflogwr; neu<br>(b) ar gyfer rhan o ddaliad y cyflogwr sy'n cael ei rhedeg fel gweithrediad neu fusnes ar wahân. |

* Rhaid i bob cymhwyster fod yn berthnasol i rôl y gweithiwr amaethyddol mewn amaethyddiaeth.

** Mae fframwaith prentisiaeth yn golygu unrhyw un o'r Fframweithiau Prentisiaeth presennol ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lantra, neu fersiynau blaenorol o'r Fframweithiau Prentisiaeth ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lantra.

Nod y strwythur graddio diwygiedig hwn yw darparu llwybr cynnydd sy'n seiliedig ar sgiliau a phrofiad drwy'r graddau ar gyfer gweithwyr amaethyddol. Mae'n fwriad hefyd iddo gydnabod a gwobrwyo unigolion sy'n ymgymryd â phrentisiaeth[2].

Mae hyn yn golygu bod angen symud gweithwyr amaethyddol i un o'r graddau o fewn y strwythur newydd. Felly, mae angen i gyflogwyr adolygu sgiliau, profiad a chyfrifoldebau eu gweithwyr amaethyddol er mwyn pennu'r radd briodol yn y strwythur graddio newydd.

2 Mae gweithiwr amaethyddol yn brentis wedi'i gyflogi dan brentisiaeth pan fydd wedi ei gyflogi o dan naill ai gontract prentisiaeth neu gytundeb prentisiaeth o fewn ystyr adran 32 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (7) neu os yw'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan gontract prentisiaeth.

Beth yw cymwysterau cyfatebol? (Atodlen 4)

| Cymwysterau Cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a'r Alban | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Gweriniaeth Iwerddon** | **Yr Alban** |
| Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 | Prentisiaeth Ganolradd Lefel 2 | Hyfforddeiaethau Lefel 2 Gogledd Iwerddon | – | Prentisiaeth Fodern Lefel 5 |
| Prentisiaeth Lefel 3 | Uwch Brentisiaeth (Advanced) Lefel 3 | Prentisiaeth Lefel 3 Gogledd Iwerddon | Prentisiaeth Lefel 5 | Prentisiaeth Fodern Lefel 6, Prentisiaeth Sylfaen |
| Prentisiaeth Uwch Lefel 4 | Prentisiaeth Uwch (Higher) Lefel 4 | Prentisiaeth Lefel Uwch Lefel 4 | Prentisiaeth Lefel 6 | Prentisiaeth Fodern Lefel 7 |

| Cymwysterau Cyfatebol o dan Fframwaith Cymwysterau Ewrop (EQF) | |
|---|---|
| **Cymru** | **Fframwaith Cymwysterau Ewrop** |
| Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 | EQF Lefel 3 |
| Prentisiaeth Lefel 3 | EQF Lefel 4 |
| Prentisiaeth Uwch Lefel 4 | EQF Lefel 5 |

Nod y canllaw hwn yw helpu cyflogwyr i gynnal adolygiad graddio a rhoi arweiniad i weithwyr amaethyddol ynghylch y broses.

## Pennu'r radd newydd

Fel yr amlinellir uchod, er mwyn pennu gradd gweithiwr amaethyddol o dan y strwythur graddio newydd, bydd angen i'r cyflogwr ystyried y ffactorau canlynol:

(a) Lefel profiad y gweithiwr amaethyddol (h.y. y blynyddoedd o brofiad ymarferol yn y sector).

(b) Unrhyw gymwysterau sydd gan y gweithiwr amaethyddol.

(c) Unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol y mae'r gweithiwr amaethyddol yn ymgymryd â nhw (er enghraifft, goruchwylio staff, hurio staff, disgyblu staff neu gyfrifoldebau rheoli).

Mae'n bwysig nodi na ddylai gradd y gweithiwr amaethyddol o dan yr hen strwythur graddio (hynny yw, y strwythur graddio yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2020 a gorchmynion blaenorol) fod yn ffactor wrth bennu gradd y gweithiwr amaethyddol o dan y strwythur graddio newydd. Bwriedir i'r strwythur graddio newydd fod yn annibynnol, heb gyfeirio at y strwythur graddio blaenorol.

## Y Broses

### 1. Rhoi gwybod i'r gweithiwr amaethyddol

Dylai cyflogwyr gynnwys y gweithiwr amaethyddol o'r cychwyn cyntaf yn y broses o bennu'r radd newydd. Dylent egluro pam mae'r broses yn angenrheidiol a beth fydd yn ei olygu.

### 2. Gwerthuso

Dylai cyflogwyr ddefnyddio'r Ffurflen Gwerthuso Gradd yn Atodiad 1 i nodi'r canlynol ar gyfer y gweithiwr amaethyddol:

(a) Lefel profiad

(b) Cymwysterau

(c) Cyfrifoldebau ychwanegol.

### 3. Ceisio gwybodaeth ychwanegol

Mae'n bosibl y bydd angen i'r cyflogwr ofyn am wybodaeth ychwanegol gan y gweithiwr amaethyddol e.e. tystiolaeth o gymwysterau sydd ganddo neu eirda mewn perthynas â chyflogaeth a phrofiad blaenorol.

### 4. Pennu'r canlyniad a rhoi gwybod amdano

Yn seiliedig ar y wybodaeth yn y Ffurflen Gwerthuso Gradd ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a gafwyd, dylai'r cyflogwr, drwy gyfeirio at y strwythur graddio newydd, bennu'r radd newydd briodol ar gyfer y gweithiwr amaethyddol.

Dylid trafod y radd newydd a'r rhesymau dros bennu'r radd gyda'r gweithiwr amaethyddol a dylai'r cyflogwr a'r gweithiwr amaethyddol lofnodi a dyddio'r Ffurflen Gwerthuso Gradd fel tystiolaeth o'r newid i'r radd newydd.

Dylid hysbysu'r gweithiwr amaethyddol hefyd am effaith cael ei bennu i'r radd newydd hon, er enghraifft beth fydd ei gyfradd tâl fesul awr ac a fydd yn gymwys i gael diogelu ei gyflog (mae hyn yn berthnasol os yw'r gyfradd tâl ar gyfer gradd newydd y gweithiwr amaethyddol yn is na'i gyfradd tâl ar gyfer ei hen radd). Dylid rhoi'r hawl hefyd i'r gweithiwr amaethyddol apelio yn erbyn pennu'r radd newydd os yw'n anhapus â'r canlyniad.

### 5. Ystyried unrhyw apêl

Dylai'r cyflogwr ystyried unrhyw apêl gan y gweithiwr amaethyddol mewn perthynas â phennu'r radd newydd. Lle bo'n bosibl, dylai hyn gael ei wneud gan rywun heblaw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yng Ngham 2. Ym mhob achos, dylid ystyried yr apêl yn ddiduedd.

Dylid hysbysu'r gweithiwr o ganlyniad yr apêl yn ysgrifenedig.

## Cwestiynau cyffredin

**1. Beth os yw'r gwerthusiad o'r radd newydd yn arwain at bennu gradd sydd â chyfradd tâl is fesul awr na chyfradd tâl fesul awr gyfredol y gweithiwr amaethyddol?**

Os oes gan y radd newydd a bennir i'r gweithiwr amaethyddol gyfradd tâl is fesul awr na chyfradd tâl gyfredol y gweithiwr amaethyddol, yna bydd cyflog y gweithiwr amaethyddol yn cael ei ddiogelu'n gyfreithiol ar y gyfradd tâl[3] gyfredol hyd nes y bydd y gyfradd sy'n gymwys i'w radd newydd yn cyrraedd neu'n pasio ei gyfradd tâl gyfredol, neu nes iddo symud i fyny i'r radd nesaf.

**Enghraifft:**

Pe bai gweithiwr amaethyddol 18 oed yn weithiwr Gradd 1 o dan y strwythur graddio blaenorol, ei gyfradd tâl fyddai £7.84.

Pe bai'n cael ei werthuso fel Gweithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A (18-20 oed) o dan y strwythur graddio newydd, mae'r gyfradd tâl berthnasol yn is sef £6.56 (neu £6.83 ar ôl 1 Ebrill 2022).

Er mwyn sicrhau nad yw'n dioddef gostyngiad yn ei gyflog o ganlyniad i'r ymarfer ailraddio, dylid cynnal lefel ei gyflog ar £7.84 tan naill ai:

- fod y gyfradd tâl sy'n gymwys i Weithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A (18-20 oed) yn cyrraedd y lefel honno (neu'n uwch); neu
- ei fod yn symud i'r band oedran nesaf o dan Radd A (h.y. 21-22 oed) ar yr amod bod y gyfradd tâl yn uwch; neu
- ei fod yn symud i Radd B a bod y gyfradd berthnasol yn uwch na £7.84.

**2. Beth os nad yw'r gweithiwr amaethyddol yn cytuno â'r radd newydd a bennwyd?**

Mae'n syniad i'r gweithiwr amaethyddol fod yn rhan o'r adolygiad graddio o'r cychwyn cyntaf, er mwyn ei alluogi i gyfrannu at y broses. Dylid hysbysu'r gweithiwr amaethyddol o ganlyniad yr adolygiad graddio a'r rhesymau pam y barnwyd bod gradd benodol yn briodol (drwy gyfeirio at y dystiolaeth a ystyriwyd).

Os nad yw'r gweithiwr amaethyddol yn cytuno â'r radd newydd sy'n cael ei phennu, dylai gael yr opsiwn i apelio yn erbyn y canlyniad i'w gyflogwr a darparu unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd y mae'n tybio nad ystyriwyd yn yr adolygiad graddio. Dylai'r cyflogwr adolygu ei benderfyniad graddio yn wyneb unrhyw wybodaeth newydd a ddarperir.

3 Erthygl 15 Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022.

## Ymholiadau a chymorth pellach

Os oes gan gyflogwr neu weithiwr amaethyddol ymholiad sy'n ymwneud â phennu graddau o dan y strwythur graddio newydd, dylent ymgynghori â gweithiwr proffesiynol perthnasol yn y lle cyntaf (e.e. cyfrifydd, undeb llafur neu gynghorydd cyfreithiol) – gweler **Atodiad 3 – Cysylltiadau Defnyddiol**.

Os nad yw hyn yn datrys y mater, gallant gysylltu â Llywodraeth Cymru:

E-bost: SLMEnquiries@llyw.cymru

Post: Tîm Isafswm Cyflog Amaethyddol<br>
Llywodraeth Cymru<br>
Neuadd y Sir<br>
Spa Road East<br>
Llandrindod Wells<br>
Powys<br>
LD1 5LG

Rhif ffôn: 0300 060 4400

Ymdrinnir â'ch cwyn/ymholiad yn gyfrinachol.

## Atodiad 1: Ffurflen Gwerthuso Gradd

| Ffactor | Asesiad a Chofnod o'r Dystiolaeth a Ddarparwyd | Gradd Briodol a Rhesymau |
|---|---|---|
| Sgiliau a Phrofiad | Nodi nifer y blynyddoedd o brofiad sydd gan y gweithiwr amaethyddol, ac unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd i ddangos hynny e.e. geirda o gyflogaeth flaenorol. | Ystyried y disgrifiadau o'r graddau o dan y strwythur newydd a phennu'r radd briodol yn ôl y dystiolaeth a ddarparwyd. |
| Cymwysterau | Nodi unrhyw gymwysterau sydd gan y gweithiwr amaethyddol, ac unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd. | Ystyried y disgrifiadau o'r graddau o dan y strwythur newydd a phennu'r radd briodol yn ôl y dystiolaeth a ddarparwyd. |
| Cyfrifoldebau | Nodi unrhyw gyfrifoldebau sydd gan y gweithiwr amaethyddol ar hyn o bryd e.e. a yw'n arweinydd tîm, a yw'n gweithredu penderfyniadau rheolwyr neu a yw'n rheoli'r daliad neu ran o'r daliad sy'n cael ei rhedeg fel busnes ar wahân. | Ystyried y disgrifiadau o'r graddau o dan y strwythur newydd a phennu'r radd briodol yn ôl y dystiolaeth a ddarparwyd. |
| Canlyniad Graddio | Ar sail yr wybodaeth uchod, pennu'r radd briodol. | |

Tystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a ystyriwyd (os yw'n berthnasol)

____________________________________________

____________________________________________

(Cyflogwr) Dyddiad

(Gweithiwr Amaethyddol) Dyddiad

## Atodiad 2: Ffurflen Gwerthuso Gradd (Gwag)

| Ffactor | Asesiad a Chofnod o'r Dystiolaeth a Ddarparwyd | Gradd Briodol a Rhesymau |
|---|---|---|
| Sgiliau a Phrofiad | | |
| Cymwysterau | | |
| Cyfrifoldebau | | |
| Canlyniad Graddio | | |

Tystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a ystyriwyd (os yw'n berthnasol)

(Cyflogwr) Dyddiad

(Gweithiwr Amaethyddol) Dyddiad

## Atodiad 3: Cysylltiadau defnyddiol

**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru)**
Tŷ Amaeth
Maes Sioe Frenhinol Cymru
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt LD2 3TU
Ffôn: 01982 554200
E-bost: nfu.cymru@nfu.org.uk

**Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)**
Llys Amaeth
Plas Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3BT
Ffôn: 01970 820820
E-bost: head.office@fuw.org.uk

**Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA Cymru)**
Canolfan Fusnes Orbit
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1DL
Ffôn: 01547 317085
E-bost: wales@cla.org.uk

**Undeb Unite (Cymru)**
Swyddfa Ranbarthol
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9SD
Ffôn: 02920 394 521
Ffacs: 02920 390 684
E-bost: wales@unitetheunion.org

**Lantra (Cymru)**
Maes Sioe Frenhinol Cymru
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt
Powys LD2 3WY
Ffôn: 01982 552646
E-bost: wales@lantra.co.uk

**CFfI**
Maes Sioe Frenhinol Cymru
Llanelwedd
Llanfair-ym-Muallt
Powys LD2 3NU
Ffôn: 01982 553502
E-bost: information@yfc-wales.org.uk

Ar gyfer materion cyflogaeth ehangach, cysylltwch â:

**Cyngor ar Bopeth**
Llinell gymorth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth: **03444 77 20 20**
Llun-Gwener, 9am-5pm
www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

**ACAS**
Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu
Llinell Gymorth ACAS: **0300 123 1100**
Llun-Gwener, 8am to 6pm
www.acas.org.uk